

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Rhagfyr 17: Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog. Sylwch ar yr amser – 3.30 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Rhagfyr 12: Bore Coffi rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Nos Fawrth, Rhagfyr 12: Cymdeithas Undebol Llanberis am 7.00 o'r gloch yn Capel Coch: Noson Garolau.

Dydd Sul, Rhagfyr 17: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Am 7.00 o'r gloch bydd perfformiad o Gair yn Gnawd.

Dydd Sul, Rhagfyr 24: Oedfa Deulu - Gwasanaeth Nadolig y Plant am 10.30. Bydd Parti Nadolig yr Ysgol Sul ei gynnal yn ystod yr wythnos cyn y Nadolig, a'r noson i'w threfnu eto.

CARMEL

Nos Wener, Rhagfyr 15: Cynhelir Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 17: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa Nadolig yr Ysgol Sul am 4.00 o'r gloch.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Rhagfyr 14: Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Rhagfyr 10

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

Rhagfyr 17

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Rhagfyr 24

Dim Oedfa

Rhagfyr 31

5.00 p.m. - Oedfa

Dydd Sul, Rhagfyr 17: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch, ac am 2.00 o'r gloch bydd Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul yng ngofal y plant, yr athrawon a'r Gweinidog.

Dydd Sul, Rhagfyr 24: Ni fydd oedfa.

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 17: Ni fydd oedfa.



Y mis nesaf - Llanberis

Rhagfyr 10

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Rhagfyr 17

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

7.00 p.m. - Perfformiad o 'Gair yn Gnawd'

Rhagfyr 24

10.30 a.m. - Gwasanaeth Nadolig y Plant

Rhagfyr 31

10.00 a.m. - Y Parchg Euron Hughes

Gair yn Gnawd

Mae'r perfformiad a oedd i'w gynnal yn Capel Coch heno wedi ei ohirio tan nos Sul nesaf (am 7.00 o'r gloch) oherwydd yr eira a addawyd

Caf fy nghyhuddo o godi bwganod os byddan nhw'n darllen y geiriau hyn. Ond a ninnau yn rhymer y pantomeim mi atebaf, 'O na dwi ddim!' Ac er y gellid dadlau eu bod nhw'n gweddu i'r dim i bantomeim, does dim byd doniol ynghylch yr hyn a wnaethon nhw nac a ddywedon nhw'r wythnos ddiwethaf.

Roedd y Brexiteers yn fodlon peryglu'r berthynas rhwng Iwerddon a'r Gogledd trwy fod mor annelwig ynglŷn â ffin bosibl ar yr Ynys Werdd. Oedden nhw wedi anghofio'r cyfnod pan oedd ffin gadarn, a heddlu a milwyr yn rheoli'r croesfannau? Oedden nhw'n fodlon gwneud rhywbeth a allai gyfrannu at ddadwneud yr holl glosio a fu? Ydyn nhw'n benderfynol o greu rhywgiadau newydd trwy roi cyfle i wleidyddion y DUP gyhuddo Llywodraeth Iwerddon o gynllwynio i fanteisio ar drafodaethau Brexit i hyrwyddo Iwerddon unedig? Oes ots ganddyn nhw be ddigwydd ar ar yr ynys cyn belled â'u bod nhw'n cael y maen i'w wal trwy gefnu ar yr Undeb Ewropeaidd? Ac er bod rhyw lun o gytundeb wedi ei sicrhau echdoe mae o hyd ansicrwydd ynghylch union fanylion y berthynas rhwng Iwerddon, Gogledd Iwerddon, gweddill gwledydd Prydain ac Ewrop.

Ond os yw Brexiteers Mrs May yn rhyfygus o annoeth, can gwaith gwaeth ydi Donald Trump a gyhoeddodd ddydd Mercher fod yr Unol Daleithiau yn cydnabod Jerwsalem yn brifddinas Israel. Cafodd y cyhoeddiad ei ganmol i'r cymylau gan Brif Weinidog Israel,

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 752: 10 Rhagfyr, 2017

Gêm beryglus

Benjamin Netanyahu. Nid syndod hynny wrth gwrs, ac roedd Trump ac yntau'n mynnu bod y penderfyniad yn gam tuag at sicrhau heddwch yn y rhan hon o'r byd. Ond nid syndod chwaith mai condemnio'r cyhoeddiad a wnaeth gweddill arweinwyr byd oherwydd yr ofn gwirioneddol y bydd hyn yn gwaethgu'r tensiynau rhwng Israel a'r Palestiniaid ac yn esgor ar ragor o drais. Gwaetha'r modd, mae'r ofn hwnnw eisoes wedi ei wireddu.

Tristwch pethau yw bod y Brexiteers a Trump yn fodlon gweithredu heb boeni am y canlyniadau. Pa ots os bydd y tensiynau yn Iwerddon ac Israel yn dwysau? I'r Brexiteers a Trump, pris bychan i'w dalu fyddai hynny er mwyn i Brydain gael ei rheoli ei hun ac i fuddiannau America ddod yn gyntaf. Erbyn hyn, y mae o leiaf addewid na cheir ffin gadarn yn Iwerddon, a does ond gobeithio na newidir hynny yn nes ymlaen. Ond anos yw bod yn obeithiol ynghylch Israel, gan ei bod yn debygol y gwelir llawer mwy o dywallt gwaed oherwydd datganiad Trump.

Trueni a chywilydd pethau yw bod carfan gref o Gristnogion America yn cefnogi Trump, er ei bod yn amlwg y bydd ei ddatganiad yn sicr o arwain at waethgu'r trais a'r ymladd yn Israel a'r Dwyrain Canol. 'Dyma'r peth iawn i'w wneud er mwyn America' yn ôl yr Arlywydd. Oni all Cristnogion ei wlad weld fod lles pobl a chyfiawnder i bawb o bob cenedl yn bwysicach hyd yn oed na lles eu gwlad nhw?

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Dangos i ni dy ffyddlondeb,
O ARGLWYDD, a rho dy
waredigaeth inni. Bydded imi
glywed yr hyn a lefara'r Arglwydd
DDUW, oherwydd bydd yn cyhoeddi
heddwch i'w bobl ac i'w ffyddloniaid,
rhag iddynt droi drachefn at ffolineb. Yn
wir, y mae ei waredigaeth yn agos at y
rhai sy'n ei ofni, fel bod gogoniant yn
aros yn ein tir. Bydd cariad a gwirionedd
yn cyfarfod, a chyfiawnder a heddwch yn
cusanu ei gilydd. Bydd ffyddlondeb yn
tarddu o'r ddaear, a chyfiawnder yn
edrych i lawr o'r nefoedd'
(Salm 85:7-11).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00
o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr
Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Mae'r
perfformiad o 'Gair yn Gnawd' wedi ei
ohirio tan nos Sul nesaf oherwydd y dar-
ogan am eira.

Mae'r oedfa yn Neiniolen heno wedi ei
gohirio oherwydd yr addewid am eira.

Bydd Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30
o'r gloch. Am 5.00 o'r gloch bydd Oedfa
Ail Sul yr Adfent yng ngofal Manon
Hughes ac Owain Morgan. Diolch yn
fawr i'r ddau am arwain y gwasanaeth.

Bydd Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00
o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Aelod Newydd

Yn ystod yr oedfa yng nghapel Carmel
nos Sul diwethaf derbyniwyd Mrs Eilina
Hughes, Hen Ysgol, Llanllechid yn aelod
o'r eglwys. Estynnwyd croeso iddi, a
dymunwn yn dda iddi gan edrych ymlaen
at gael ei chwmmi o fewn teulu'r eglwys.

Ffair Nadolig

Daeth llond y festri ynghyd nwaith eto
ar gyfer Ffair Nadolig Capel Bethlehem,
Talybont nos Fawrth, Rhagfyr 5.

Diolch i bawb a gefnogodd, ac i bawb a
fu'n gweithio'n brysur i baratoi'r cyfan
er mwyn sicrhau llwyddiant yr ymdrech.

Gwnaed elw o £670 at gronfa'r Capel a'r
Ysgol Sul.

Gair yn Gnawd

Mae'n 9.00 o'r gloch nos Sadwrn, ac
wedi wythnosau o baratoi ac ymarfer
mae noson cyflwyno'r Cantawd 'Gair yn
Gnawd' yn Capel Coch wedi cyrraedd.

Ond siom fawr i bawb oedd yr holl sôn
am eira mawr sydd wedi ei addo at yfory.
Erbyn i chi ddarllen hwn bydd yn amlwg
a oedd y rhagolygon tywydd yn gywir ai
peidio. Amser cinio ddydd Sadwrn roedd
gwefan dywydd y BBC yn addo 'Eira
Trwm' i Lanberis o bedwar o'r gloch
fore Sul tan ddechrau'r pñawn, ac am
hynny bu raid ystyried beth i'w wneud.

Penderfynwyd na ellid aros tan fore Sul i
gael cadarnhad o'r tywydd, ac am fwy
nag un rheswm barnwyd mai'r peth
doethaf fyddai gohirio'r perfformiad tan
nos Sul nesaf. Os daw'r eira bydd yn
amlwg yn amhosibl i ni gynnal y noson.
Ac felly er mwyn rhoi gwybod i bawb,
barnwyd mai gwell fyddai gohirio heno.

Ymddiheurwn yn fawr, ond gobeithio
bod pawb yn deall nad oes gennym
ddewis ond gwneud hyn.

Cadwch eich tocynnau at y Sul nesaf, neu
cysylltwch â ni er mwyn cael eich arian
yn ôl os na ellwch fod yno'r Sul nesaf.

Os na chawsoch docyn at nos yfory,
mae'n siwr y bydd tocynnau ar gael ar
gyfer y Sul nesaf gan ei bod yn debygol y
bydd rhai yn methu â dod oherwydd y
newid hwn.

Parti Dolig CIC

Oherwydd y darogan am eira ddydd
Gwener bu raid gohirio'r Parti Dolig yr
oedd Coleg y Bala am ei gynnal yn Y
Ganolfan yn Llanberis nos Wener.

Gwnaed y penderfyniad fore Iau er
mwyn rhoi digon o rybudd o'r gohirio i
bawb a oedd am deithio i Lanberis.

Noson Garolau Cymdeithas Llanberis

Bydd cyfarfod y mis hwn o Gymdeithas
Undebol Llanberis yn Capel Coch am
7.00 o'r gloch nos Fawrth, Rhagfyr 12.

Cyfarfod Carolau fydd gennym y tro
hwn, ac edrychwn ymlaen at gael cwmni
aelodau'r Gymdeithas ac unrhyw un arall
sydd am ymuno â ni i ddathlu'r Nadolig.

Mae hon yn noson braf bob blwyddyn; ac
i mi, beth bynnag am neb arall, mae'n un
o'r nosweithiau sy'n cadarnhau fod y
Nadolig wrth law.

Croeso cynnes i chi ymuno â ni felly.

DCDC

Gofynnwyd i ni gyhoeddi y bydd
'Dechrau Canu Dechrau Canmol' yn cael
ei recordio yng Nghapel Emaus, Bangor
am 6.30 o'r gloch, nos Lun, Rhagfyr 11
dan arweiniad Cefin Roberts.

Capel Coch

Bydd llyfrau ariannol y Capel yn cau
ddydd Sul Rhagfyr 31, 2017. Bydd pob
cyfraniad a dderbynnir wedyn yn cael ei
roi yng nghyfrifon y flwyddyn 2018.

Cyfraniadau ariannol

Diolch am bob cyfraniad ariannol at
waith eglwysy'r Ofalaeth eleni eto. Bydd
trysoryddion pob eglwys yn sicr yn falch
o dderbyn unrhyw gyfraniadau pellach y
dymuna'r aelodau eu gweud cyn diwedd
y flwyddyn gan y bydd yn amlwg yn
hwyluso eu gwaith.

Dydd Nadolig

Cynhelir Oedfa Gymun am 10.00 o'r
gloch yn Capel Coch fore dydd Nadolig.